Morfa Mawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HH
☏: 01970-617996
✉: post@morlan.org.uk
www.morlan.org.uk

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae Canolfan Morlan yn trefnu amryw ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ar gyfer pobl o bob oed ac o bob sector o'r gymuned, gyda rhai o'r gweithgareddau neu ddigwyddiadau hyn, megis y Clwb Ieuenctid wythnosol, yn arbennig ar gyfer plant neu bobl ifanc. Gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am fwyafrif y gweithgareddau/digwyddiadau hyn.

1. Datganiad Polisi

Cred Morlan fod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael ei barchu ac i deimlo'n ddiogel, a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau hapusrwydd, diogelwch a ffyniant pob plentyn a pherson ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r digwyddiadau y mae Morlan yn trefnu ar eu cyfer.

Mae Morlan yn cyd-fynd â hawliau plant a phobl ifanc fel y'u nodir yn natganiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Deddf Plant 1989. I'r perwyl hwn bydd gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau/digwyddiadau hyn yr hawl i ddisgwyl i bob oedolyn sydd â chyfrifoldeb amdanynt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth o bob math.

Mae'r Polisi Amddiffyn Plant hwn yn berthnasol i unrhyw weithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr sy'n ymwneud â'r gweithgareddau/digwyddiadau hyn, a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae'r Polisi yn berthnasol dim ond i'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a drefnir gan y Morlan ac nid y digwyddiadau neu weithgareddau a drefnir gan Logwyr y Morlan.

2. Amcan y Polisi

Amcan y Polisi hwn yw hybu arfer da er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu yn ystod gweithgareddau a digwyddiadau a drefnir gan y Morlan ar eu cyfer, ac i alluogi gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr i ymateb yn wybodus ac yn hyderus i faterion penodol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

3. Gweithwyr Cyflogedig a Gwirfoddolwyr

Bydd pob gweithiwr cyflogedig a gwirfoddolwr sy'n ymwneud â gweithgaredd neu ddigwyddiad a drefnir gan y Morlan yn benodol ar gyfer plant neu bobl ifanc yn cael Prawf Datgelu gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn iddynt ddechrau ar y gwaith, ynghyd ag unrhyw brawf arall sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Bydd Morlan yn sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am Brawf Datgelu yn derbyn copi o'r Polisi hwn.

Os yw Morlan yn trefnu unrhyw weithgaredd sy'n dod â phobl eraill mewn i weithio gyda'r plant neu bobl ifanc, bydd yn sicrhau bod y bobl hynny eisoes wedi cael Prawf Datgelu os yn berthnasol.

4. Caniatâd Rhieni

Ar gyfer gweithgareddau hirdymor, megis Clwb Clex, bydd arweinwyr y gweithgareddau hynny yn sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhieni er mwyn gallu gweithredu *in loco parentis.*

Os cymerir ffotograffau o blant neu bobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Clwb, ceisir sicrhau caniatâd ysgrifenedig y rhieni cyn defnyddio'r ffotograffau yn gyhoeddus.

5. Canllawiau Arfer Da

Rydym yn cynghori unrhyw weithiwr neu wirfoddolwr sy'n ymwneud â gweithgareddau Morlan ar gyfer plant neu bobl ifanc:

- i ymddwyn fel model rôl gan drin pob plentyn a pherson ifanc â pharch ac urddas
- i gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw anaf, ynghyd â manylion y driniaeth a roddwyd
- i bob amser aros mewn lle agored ac i osgoi sefyllfaoedd ble fyddwch ar eich pen eich hun gydag un o'r plant neu bobl ifanc
- i osgoi cyswllt corfforol â'r plant neu bobl ifanc cyn belled â bo hynny'n bosibl
- i osgoi dod â phlentyn neu berson ifanc i'r gweithgaredd/digwyddiad a mynd â hwy adref wedyn.

Yn ogystal, ni ddylech, ar unrhyw gyfrif:

- gwneud i blentyn neu berson ifanc grio fel ffordd o gadw rheolaeth
- ymgymryd â gemau or-gorfforol neu gemau sy'n rhywiol-bryfoclyd, gan gynnwys chwarae gwirion
- caniatáu neu ymhél ag unrhyw fath o gyffwrdd amhriodol
- gwneud sylwadau o natur awgrymiadol rywiol, hyd yn oed mewn modd cellweirus
- anwybyddu neu ddiystyru unrhyw gyhuddiad a wneir gan un o'r plant neu bobl ifanc heb ei gofnodi, neu ymateb iddo neu weithredu arno
- gwahodd neu ganiatáu unrhyw un o'r plant neu bobl ifanc i'ch cartref heb oruchwyliaeth.

5. Ymateb i Gyhuddiadau neu Amheuon

Nid cyfrifoldeb gweithwyr na gwirfoddolwyr Morlan yw penderfynu a yw plentyn/person ifanc wedi'i gam-drin ai peidio, ond mae ganddynt gyfrifoldeb i weithredu ar unrhyw bryderon. Dylai gweithiwr neu wirfoddolwr ddilyn y canllawiau isod mewn sefyllfa o'r fath.

Amheuon

- Os ydych yn bryderus ynglŷn â newid yn ymddygiad plentyn neu unrhyw arwyddion o niwed corfforol anesboniadwy awgrymir eich bod yn cadw cofnod cyfrinachol mewn Llyfr Digwyddiadau.
- Os ydych yn **amau** bod plentyn yn cael ei gam-drin yna dylech drafod hynny gyda'r rhiant/gofalydd lle bo'n bosibl, gan geisio esboniad am unrhyw anaf neu ymddygiad anghyffredin. Dylech gofnodi ymateb ac esboniadau'r rhieni/gofalwyr ar ôl y drafodaeth, ynghyd ag unrhyw gamau pellach a gymerwyd. Os ydych yn amau taw'r rhiant/gofalydd sydd wrth wraidd y broblem, dylech fynegi eich pryderon i berson arall mewn awdurdod.
- Os ydych yn **credu'n gryf** bod plentyn yn cael ei gam-drin, dylech weithredu trwy gysylltu â Swyddog ar Ddyletswydd yn Swyddfa Ardal leol yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu neu'r NSPCC.
- Sicrhewch fod pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel ac o dan glo, yn unol â deddfau amddiffyn data.
- Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cyfrinachedd i bawb, ac osgoi rhannu gwybodaeth oni bai fod gwir angen gwneud hynny.

Cyhuddiadau

- Os gwneir cwyn neu gyhuddiad o gam-drin yn erbyn un o weithwyr neu wirfoddolwyr Morlan, bydd Morlan yn chwilio am gyngor gan yr awdurdod perthnasol a bydd yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellir gan yr awdurdod hwnnw.

6. Damweiniau ac Anafiadau

Mae Blwch Cymorth Cyntaf wedi'i leoli yng nghegin y Bar Coffi (ar y silff waelod), ac yn y Gegin ar y llawr cyntaf.

Rhaid nodi unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn y Llyfr Damweiniau a leolir yn swyddfa Rheolwr y Morlan. Dylid tynnu sylw'r Rheolwr at unrhyw ddigwyddiad a fu bron ag achosi damwain fel y gellir ymdrin â'r broblem a'i datrys.

Camau i'w Cymryd:

- Os ydych yn cael damwain fach, dylech roi Cymorth Cyntaf i'ch hunau neu ofyn am gymorth os oes angen.
- Os ydych yn trin rhywun sy'n gwaedu, dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddal HIV neu hepatitis. Mae'n hanfodol gwisgo menig pwrpasol cyn ceisio trin unrhyw un sy'n gwaedu, a'u taflu wedyn (ceir bocs o fenig wrth ymyl y Blychau Cymorth Cyntaf).
- Os yw'r ddamwain yn fwy difrifol ac onid oes modd ymdrin â hi yn y fan a'r lle yna fe ddylid trefnu i'r person fynd ar unwaith i Adran Ddamweiniau Ysbyty Bronglais – naill ai mewn cludiant preifat neu trwy alw am ambiwlans (os oes unrhyw ansicrwydd, galwch am ambiwlans). Gellir defnyddio'r ffôn yn swyddfa'r Rheolwr os yw'r swyddfa yn agored. Deialwch 999 a rhowch y cyfeiriad canlynol:
  CANOLFAN MORLAN, MORFA MAWR (QUEENS ROAD), ABERYSTWYTH SY23 2HH
- Os yw'r person yn anymwybodol neu wedi'i niweidio'n ddifrifol, ni ddylid ceisio ei symud na'i godi; dylid gadael hyn i bersonau proffesiynol oni bai fod ei adael yno yn ei roi mewn mwy o berygl.
- Cynhelir ymchwiliad i amgylchiadau pob damwain ddifrifol, felly ni ddylid newid safle'r ddamwain mewn unrhyw fodd, heblaw am resymau diogelwch, nes bod personau cyfrifol yn awdurdodi hynny.

Os yw unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cyrraedd gweithgaredd Morlan gydag anaf corfforol amlwg, argymhellir cofnodi hwn yn y Llyfr Damweiniau hefyd, gan nodi na ddigwyddodd yr anaf yn ystod ei ymweliad â Morlan.

Gweler hefyd Polisi Iechyd a Diogelwch y Morlan am ganllawiau iechyd a diogelwch cyffredinol.

Mabwysiadwyd: Ionawr 2009
Diweddarwyd: Awst 2010